**Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg**
**Education, Culture and Welsh Language Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

01/10/2024

Annwyl Bennaeth

**Parthed: Dysgu 14-16 o dan y Cwricwlwm i Gymru**

Gobeithio'ch bod yn cadw'n iawn. Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn cyhoeddi'r Canllawiau Dysgu 14-16 yn ddiweddar ac i roi gwybod i chi am ein bwriad i gynnal **Cynadleddau Arweinyddiaeth 14-16** ledled Cymru ar ddechrau 2025.

Bydd y cynadleddau hyn yn cael eu cynnal ar y cyd â digwyddiadau Dysgu Proffesiynol CBAC ar gyfer y TGAU newydd 'ton 1' yn nhymor y gwanwyn 2025 ar y diwrnodau HMS y cytunwyd arnynt (gweler y dyddiadau isod).

Mae'r gwahoddiad i'r gynhadledd yn eich ardal chi yn cael ei estyn i chi a'ch tîm arweinyddiaeth cyfan (ac eithrio unrhyw arweinwyr a allai fod yn mynychu sesiwn DP pwnc benodol gyda CBAC, wrth gwrs.)

Bwriad y cynadleddau hyn yw darparu cefnogaeth i arweinwyr ysgolion i ddeall dysgu 14-16 yng nghyd-destun y Cwricwlwm 3-16 i Gymru, a'i arwyddocâd wrth gefnogi pob dysgwr i drosglwyddo'n effeithiol i ôl-16. Hoffem ddarparu cyfle i arweinwyr drafod ein Canllawiau Dysgu 14-16, ac ystyried y goblygiadau ar gyfer:

- Hunanwerthuso a gwella (gan gynnwys defnyddio data, gwybodaeth a thystiolaeth)
- Addysgeg (gan gynnwys cwricwlwm, cynnydd ac asesu, effeithiolrwydd dysgwyr a delio â rhwystrau i ddysgu)
- Cwricwlwm ac amserlennu (gan gynnwys ystyried amser ac adnoddau'r cwricwlwm, a chydbwysedd rhwng asesiadau nad ydynt yn arholiad/arholiadau ar draws y gyfres o gymwysterau)

Mae penllanw diwygio'r Cwricwlwm i Gymru, wrth iddo gyrraedd dysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11, a diwygio cymwysterau cysylltiedig, yn garreg filltir allweddol arall yn ein taith gyfunol. Rydym yn gwerthfawrogi bod gan y diwygiadau hyn oblygiadau mawr i arweinwyr ysgolion ac rydym am roi cyfle i chi drafod y rhain gyda Llywodraeth Cymru, gan gefnogi partneriaid ac arweinwyr ysgolion eraill yn eich ardal.

Byddwn yn cydlynu'r trefniadau gyda CBAC, ond y bwriad yw cynnal cynhadledd arweinyddiaeth mewn ysgol uwchradd yn yr ardal leol benodol rhwng 8.30am ac 1pm (gan

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

owain.lloyd001@gov.wales
Gwefan ● website: www.llyw.cymru
www.gov.wales


gynnwys cinio) ar ddyddiad digwyddiadau dysgu proffesiynol CBAC. I'ch atgoffa, rydym wedi nodi isod gopi o amserlen CBAC.

| **Clwstwr Awdurod Lleol** | **Dydd** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| Abertawe (cyfrwng Saesneg) | Gwener | 14/02/2025 |
| Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg (cyfrwng Saesneg) | Llun | 17/02/2025 |
| Wrecsam, Sir y Fflint (cyfrwng Saesneg) | Gwener | 21/02/2025 |
| CYDAG De Cymru (cyfrwng Cymraeg) | Llun | 03/03/2025 |
| Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen (cyfrwng Saesneg) | Gwener | 07/03/2025 |
| Caerdydd (cyfrwng Saesneg) | Llun | 10/03/2025 |
| CYDAG Gogledd Cymru (cyfrwng Cymraeg) | Gwener | 14/03/2025 |
| CYDAG Canolbarth / Gorllewin Cymru (cyfrwng Cymraeg)* | Gwener | 21/03/2025 |
| Ceredigion, Powys, Castell-nedd Port Talbot (cyfrwng Saesneg)* | Gwener | 21/03/2025 |
| Caerffili, Blaenau Gwent, Merthyr (cyfrwng Saesneg) | Llun | 24/03/2025 |
| Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych (cyfrwng Saesneg) | Gwener | 28/03/2025 |
| Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro (cyfrwng Saesneg) | Gwener | 04/04/2025 |
| Rhondda Cynon Taf (cyfrwng Saesneg) | Llun | 07/04/2025 |

Rydym yn gobeithio byddwch yn gweld manteision y digwyddiad hwn i chi a'ch tîm arwain, ar draws ystod eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac edrychwn ymlaen at eich croesawu ar y diwrnod.

Byddwn yn anfon ffurflen gofrestru i chi maes o law, ond am y tro sicrhewch eich bod chi a'ch tîm arweinyddiaeth yn rhoi'r dyddiad yn eich dyddiadur.

Yn gywir



Owain Lloyd,
Cyfarwyddwr Addysg a’r Gymraeg